OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 591 (Cy.60) (C.22)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn) (Cymru) 2008

*Gwnaed - - - - 3 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 245(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn) (Cymru) 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru ac eithrio mewn perthynas ag awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007;

ystyr "Deddf 1999" ("*the 1999 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999(**2**); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**3**).

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2008—

(a) adran 137;

(b) adran 140;

(c) adran 210; ac

(ch) adran 241, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Rhan 8 o Atodlen 18 i—

(i) adrannau 5 a 6(2)(c), (d) ac (l) o Ddeddf 1999;

(ii) y gair "5," yn adran 28(2) o Ddeddf 1999;

(iii) y geiriau "Subject to subsection (5)," yn adran 21(4) o Ddeddf 2000; a

(iv) adran 21(5) o Ddeddf 2000.

(**1**) 2007 p.28.
(**2**) 1999 p.27.
(**3**) 2000 p.22.

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 ("Deddf 2007") i rym o ran Cymru ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2007 i rym ar 1 Ebrill 2008:

(a) adran 137, sy'n mewnosod adran 3(4) newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 ("Deddf 1999") fel bod rhaid i awdurdod, wrth benderfynu ar sut i gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 3(1) o Ddeddf 1999 ac wrth benderfynu â phwy i ymgynghori o dan adran 3(2) o'r Ddeddf honno ac ar ffurf, cynnwys ac amseriad y cyfryw ymgynghoriadau, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;

(b) adran 140, sy'n hepgor adran 5 o Ddeddf 1999 (dyletswydd ar awdurdod i gynnal adolygiadau gwerth gorau);

(c) adran 210, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, i wneud darpariaeth o ran Cymru, drwy orchymyn, yn cymhwyso unrhyw ddarpariaethau o adrannau 205 i 208 o Ddeddf 2007 sy'n ymwneud â chydawdurdodau gwastraff; ac

(ch) adran 241, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Rhan 8 o Atodlen 18 o ddarpariaethau yn Neddf 1999 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 ynghylch adran 5 o Ddeddf 1999.